# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Grange**

**Caerfyrddin**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# The Grange

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Consensus Support Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Rhagfyr 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw bywydau hapus yng nghartref The Grange. Mae'r tîm staff yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys yn llawn yn yr holl drafodaethau am eu gofal. Caiff pob person ei annog i wneud dewisiadau bob dydd o ran sut i fyw ei fywyd ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddo. Mae'r gweithwyr allweddol yn sicrhau bod y bobl yn cael eu gwahodd i gyfrannu at y broses o adolygu eu cynlluniau gofal.

Mae'r tîm o staff brwdfrydig a phroffesiynol am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl, ac mae'r bobl maent yn eu cefnogi yn ganolog i'r gwasanaeth. Mae'r tîm staff yn ymdrin â'r bobl â pharch ac yn eu cefnogi i gyfathrebu'n effeithiol. Mae'r holl gyflogeion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr uwch-staff a'u bod yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Maent yn dangos gwybodaeth drylwyr am y bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae'r tîm rheoli yn bwrw ati'n barhaus i ddatblygu'r gofal a'r cymorth a gaiff y bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff ansawdd y cymorth a roddir i'r bobl ei fonitro'n gadarn. Yn ogystal, mae'r awyrgylch hamddenol ym mhob rhan o'r cartref yn helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus.

## Llesiant

Ar y cyfan, mae gan y bobl yng nghartref The Grange reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae pob person yn gwybod pa gymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt, ac yn eu deall. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda. Mae'r gweithwyr allweddol yn gweithio gyda'r bobl i sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Mae'r cynlluniau cymorth yn fanwl ac yn rhoi cyfoeth o wybodaeth i'r tîm staff am yr unigolyn, yn enwedig ei ddewisiadau cyfathrebu lle nad yw'r person yn defnyddio dulliau llafar i gyfleu ei ddymuniadau. Mae cyfarfodydd cartref rheolaidd yn rhoi cyfleoedd i'r bobl godi unrhyw faterion â'r tîm staff. Mae dogfen Datganiad o Ddiben y cartref yn disgrifio'n gywir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu ac mae ar gael yn hawdd i'r bobl yn y cartref a'u perthnasau. Mae gan bob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth gopi o'r Canllaw Croeso: caiff ei gyflwyno mewn fformat hawdd ei ddarllen ac mae'n cynnwys gwybodaeth ar ffurf lluniau o'r hyn y gallant ei ddisgwyl wrth fyw yn y cartref. Mae gwasanaethau eiriolaeth ar gael i'r bobl pan fyddant am gael cymorth annibynnol mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt.

Mae'r bobl yn gallu ymlacio, yn teimlo'n gyfforddus ac yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Caiff y bobl eu hannog gan y gweithwyr gofal i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Mae pob person mor egnïol ag y dymuna fod. Mae'r bobl yn personoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau a'u hobïau. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl.

Mae'r cartref yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Mae rhai arwyddion dwyieithog i'w gweld yn yr eiddo. Mae rhai o'r bobl yn y cartref yn siarad Cymraeg, yn ogystal â rhai o'r staff. Yn ogystal, mae rhai dogfennau allweddol, fel Datganiad o Ddiben y cartref a’r Canllaw Croeso, ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Gofal a Chymorth

Ceir cynlluniau cyfredol sy'n dangos sut mae'r tîm o staff yn galluogi'r bobl i fyw eu bywydau fel y dymunant. Mae'r staff yn cynnal asesiadau cychwynnol cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref ac maent yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y bobl: maent yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwybodaeth gan y teulu ac adroddiadau gweithwyr cymdeithasol. Mae asesiadau risg yn helpu i sicrhau bod y bobl yn parhau mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr allweddol ac uwch-aelodau o'r staff yn adolygu'r cofnodion gofal yn rheolaidd, yn enwedig os bydd anghenion cymorth yn newid.

Mae'r cofnodion gofal yn nodi'n amlwg unrhyw risgiau i lesiant y bobl, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl mor iach, diogel ac annibynnol â phosibl. Mae'r uwch-aelodau o staff yn diogelu gwybodaeth bersonol y bobl bob amser.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Mae gan y cartref ei drafnidiaeth ei hun. Mae'r bobl yn mwynhau cyfleoedd i fynd i bwll hydrotherapi lleol, i fynd i Gaerfyrddin i siopa ac ymweld â'r parciau, a gwelsom griw hapus yn paratoi i fynd allan i farchogaeth. Mae amserlen wythnosol o weithgareddau i bawb yn y cartref ac mae pob person i weld yn fodlon ar y cynlluniau sydd ar waith.

Mae pob gweithiwr gofal yn cael cymorth, arweiniad a hyfforddiant, ac mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r gweithwyr er mwyn iddynt ddeall eu cyfrifoldeb o ran amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Maent yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol, ond byddent hefyd yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent o'r farn bod angen gwneud hynny.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref ac mae'r gweithwyr gofal yn cyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen. Mae cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo ac mae nodiadau canllaw i unrhyw un sy'n eu defnyddio.

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd addas. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn hapus. Mae tri llawr i'r adeilad, ond mae'n hawdd i'r bobl symud o'i amgylch gan ddefnyddio'r grisiau neu lifft. Gall y bobl ddewis gwahanol ardaloedd i gymdeithasu ynddynt: mae dwy lolfa ac heulfan fawr. Y tu allan, mae gardd yn y cefn a cheir sied haf a meinciau lle gall y bobl fwyta eu prydau pan fydd y tywydd yn braf neu lle gallant dreulio amser gyda ffrindiau. Gwelsom rai o'r bobl yn taflu eu cotiau dros y banister wrth ddychwelyd o'u bore allan, gan ei drin o ddifrif fel eu cartref. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r unigolyn, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a dodrefn.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i’r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch drws y ffrynt cyn dod i mewn a chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac wrth adael. Caiff cofnodion gofal personol y bobl eu storio'n ddiogel a dim ond y gweithwyr gofal a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ag awdurdod i'w gweld a gaiff edrych arnynt.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002. Mae cyfarwyddiadau clir wedi'u harddangos yn y cartref o ran yr hyn y dylid ei wneud os bydd tân, ac mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r gofal y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bawb sy'n cael cymorth. Mae archwiliadau rheolaidd yn monitro pob agwedd ar fywydau'r bobl ac mae unrhyw faterion sy'n codi yn cael eu datrys yn brydlon. Cynhelir trafodaethau rheolaidd â'r bobl a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae'r bobl a'u perthnasau yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen, er na fu unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom sawl enghraifft o'r bobl a'u perthnasau yn canmol amrywiaeth o ddigwyddiadau ac agweddau ar y cymorth a ddarperir gan y staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cysylltu â'r cartref yn gyson ac yn rhoi cymorth ymarferol, uniongyrchol i'r rheolwr yn rheolaidd.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i unrhyw weithiwr newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r rhaglen sefydlu staff yn fanwl ac yn cysylltu â chanlyniadau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant hanfodol diweddaraf, ynghyd â hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r cartref, fel awtistiaeth a rheoli ymddygiad cadarnhaol (PBM). Dywed y gweithwyr gofal fod hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac o'r ffyrdd gorau i gefnogi'r bobl. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith a sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau yn y cartref. Caiff pob agwedd ar y gwasanaeth ei chrynhoi yn ystod ymweliadau bob tri mis gan yr Unigolyn Cyfrifol ac adroddiadau ansawdd y gofal bob chwe mis. Gall y gweithwyr drafod unrhyw faterion yr hoffent eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio a gynhelir bob tri mis.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael cyfnod sefydlu, hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol yn gyson. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Roedd disgwyl i'r cynlluniau cymorth gael eu hadolygu ym mis Rhagfyr 2021, ond ni wnaed hynny eto. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/03/2023